3. Ymatebodd Comisiynydd y Gymraeg ar 3 Gorffennaf 2019 a dywedodd fod ei asesiad rhagarweiniol yn dangos y byddai cydymffurfio â'r cais yn mynd y tu hwnt i'r terfyn priodol o dan adran 12 o'r Ddeddf. Yn hytrach na gwrthod y cais nododd Comisiynydd y Gymraeg ei fod yn dymuno gweld sut y gallai geisio helpu'r achwynydd i fireinio'r cais er mwyn dod ag ef o fewn y terfyn costau
4. Ar 4 Gorffennaf 2019 mynegodd yr achwynydd anfodlonrwydd â'r modd yr ymdriniwyd â'i gais. Nododd fod Comisiynydd y Gymraeg o dan ddyletswydd statudol i gyhoeddi cylchoedd gorchwyl ac adroddiadau ar ymchwiliadau. Awgrymodd y dylai'r adroddiadau, sy'n cynnwys y cylch gorchwyl, fod mewn system ffeilio ganolog ac felly na ddylai gymryd mwy na 18 awr i ddod o hyd i'r wybodaeth y gofynnwyd amdani.
5. Rhoddodd Comisiynydd y Gymraeg ganlyniad ei adolygiad mewnol ar 1 Awst 2019 a chadarnhaodd y safbwyt bod adran 12 o'r Ddeddf yn gymwys i'r cais. Eglurodd Comisiynydd y Gymraeg mai'r rheswm y byddai'n cymryd cyhyd i gydymffurfio â'r cais oedd yr angen i wirio pob adroddiad am gynnwys personol neu ddata categori arbennig cyn y gellid eu datgelu.

### Rhychwant yr achos

---

6. Cysylltodd yr achwynydd â'r Comisiynydd Gwybodaeth ar 2 Medi 2019 i gwyno am y ffordd yr ymdriniwyd â'i gais am wybodaeth.
7. Yn ystod ymchwiliad y Comisiynydd Gwybodaeth, gwnaeth Comisiynydd y Gymraeg nifer o ddatgeliadau gwybodaeth i'r achwynydd. Daliai Comisiynydd y Gymraeg fod gweddill yr wybodaeth a oedd ganddo a oedd yn berthnasol i'r cais wedi'i hesemptio o dan adrannau 31, 40(2) a 44(1) o'r Ddeddf.
8. Yn sgil datgeliadau Comisiynydd y Gymraeg, cysylltodd y Comisiynydd Gwybodaeth â'r achwynydd i ganfod a oedd yn fodlon â'r wybodaeth a ddatgelwyd. Nododd yr achwynydd ei fod yn dal yn dymuno mynd ar drywydd ei gŵyn mewn perthynas â'r wybodaeth a oedd wedi'i chadw'n ôl o'r cylchoedd gorchwyl gan ei fod o'r farn bod Comisiynydd y Gymraeg o dan ddyletswydd statudol i gyhoeddi pob cylch gorchwyl.
9. Yng ngoleuni'r uchod, rhychwant ymchwiliad y Comisiynydd Gwybodaeth yw penderfynu a ddylai gweddill yr wybodaeth a gadwyd yn ôl, yn ymwneud yn benodol â'r cylchoedd gorchwyl, gael ei ddatgelu.

## Y rhesymau dros y penderfyniad

---

### Adran 31 – Gorfodi'r gyfraith

10. Mae adran 31 yn darparu esempiad wedi'i seilio ar ragfarn sy'n diogelu amryw o fuddiannau gorfodi'r gyfraith. Mae ystyried yr esempiad hwn yn broses dau gam. Yn gyntaf, er mwyn i'r esempiad fod yn berthnasol, rhaid iddi fod o leiaf yn debygol y byddai datgelu'n rhagfarnu un o'r buddiannau gorfodi cyfraith a ddiogelir gan adran 31 o'r Ddeddf.
11. Yn ail, mae'r esempiad yn destun prawf cydbwyso budd cyhoeddus. Effaith y prawf hwn yw y dylai'r wybodaeth gael ei datgelu os yw'r budd cyhoeddus yn ffafrio hynny, er bod yr esempiad yn berthnasol.
12. Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cymhwys o adran 31(1)(g) ynghyd ag adrannau 31(2)(a), (b) ac (c) er mwyn dal yr wybodaeth y gofynnwyd amdani yn ôl.
13. Mae'r rhannau perthnasol o adran 31 o'r Ddeddf yn darparu hyn:
 

*"(1) Information which is not exempt information by virtue of section 30 is exempt information if its disclosure under this Act would, or would be likely to, prejudice—*

*(g) the exercise by any public authority of its functions for any of the purposes specified in subsection (2),*

*(2) The purposes referred to in subsection (1)(g) to (i) are –*

*(a) the purpose of ascertaining whether any person has failed to comply with the law,*

*(b) the purpose of ascertaining whether any person is responsible for any conduct which is improper,*

*(c) the purpose of ascertaining whether circumstances which would justify regulatory action in pursuance of any enactment exist may arise"*
14. Comisiynydd y Gymraeg sy'n gyfrifol am sicrhau bod cyrff yng Nghymru sy'n dod o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ('y Mesur') yn cydymffurfio ag ef. Prif nod Comisiynydd y Gymraeg yw hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a gosod dyletswyddau iaith ar sefydliadau yng Nghymru. Mae dau fath o ddyletswydd iaith yng Nghymru, sef Safonau'r Gymraeg a Chynlluniau Iaith Gymraeg. Mae'r dyletswyddau iaith hyn yn esbonio sut y dylai sefydliadau yng Nghymru ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, a chyda'r cyhoedd. Cafodd Safonau'r Gymraeg ('y Safonau') eu creu o ganlyniad i'r Mesur.

15. Comisiynydd y Gymraeg yw'r rheoleiddiwr cyfrifol mewn perthynas ag ymchwilio a gorfodi gofynion cyfreithiol mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg. Mae Comisiynydd y Gymraeg o dan ddyletswydd statudol i orfodi unrhyw fethiannau i gydymffurfio â'r Safonau a'r Mesur ac i ymchwilio i achosion o dorri'r Safonau a'r Mesur. Nodir y swyddogaeth hon yn adran 71 o'r Mesur.<sup>4</sup>
16. Mae'r wybodaeth y mae Comisiynydd y Gymraeg wedi'i chadw'n ôl o dan adran 31 yn cynnwys gwybodaeth a gynhwysir yn y cylchoedd gorchwyl sy'n ymwneud ag ymchwiliadau sy'n fyw/agored. Mae hyn yn cynnwys ymchwiliadau lle mae cylch gorchwyl neu ganfyddiadau ar ffurf draft a/neu heb eu rhannu eto gyda'r partïon perthnasol, ymchwiliadau lle na chyrhaeddwyd casgliadau eto ac ymchwiliadau lle mae penderfyniadau wedi'u gwneud ond yn dal i fod o fewn y cyfnod amser ar gyfer apêl, cwyn neu her gyfreithiol.
17. Mae Comisiynydd y Gymraeg o'r farn y byddai datgelu'r wybodaeth yn debygol o ragfarnu ei allu i gynnal ymchwiliadau a/neu wneud penderfyniadau arnynt heb i'r canlyniad gael ei ragfarnu neu ei ddylanwadu/effeithio'n ddiangen o ganlyniad i ymyrraeth a thynnu sylw. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn dadlau y byddai datgelu gwybodaeth ynglŷn â materion agored hefyd yn cyfyngu'n sylweddol ar allu cyrff sy'n destun ymchwiliad i amddiffyn eu hunain yn briodol rhag honiadau gan y byddent yn y bôn yn cael eu rhoi ar brawf, yn gyhoeddus, cyn cael cyflwyno'u hachos. Byddai hyn yn annheg dros ben a byddai hefyd yn creu proses ddiangen a phwysau ar adnoddau Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer ymchwiliadau rheoleiddiol.
18. Mae Comisiynydd y Gymraeg o'r farn y byddai datgelu'n debygol o olygu y byddai unigolion yn llai tebygol o roi gwybod am unrhyw achosion posibl o dorri'r Safonau a'r Mesurau am eu bod yn ofni sgil-effeithiau, yn enwedig yr unigolion hynny a gyflogir gan y corff a allai fod yn torri'r rheolau. Mae Comisiynydd y Gymraeg hefyd o'r farn y byddai datgelu'n debygol o effeithio ar gydweithrediad sefydliadau sy'n destun ymchwiliad. Byddai unrhyw fethiant yn y berthynas rhwng Comisiynydd y Gymraeg ac unrhyw gorff sy'n destun ymchwiliad yn cael effaith andwyol ar yr ymchwiliad. Mae'r effaith hon yn gymwys i ymchwiliadau cyfredol, sydd ar eu hanner a byddai hefyd yn effeithio ar dystion posibl mewn unrhyw ymchwiliad yn y dyfodol. Bydd datgelu gwybodaeth sy'n ymwneud ag ymchwiliadau byw yn cyfyngu ar allu Comisiynydd y

---

<sup>4</sup>

<https://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/1/part/5/chapter/1/crossheading/investigations/enacted>

Gymraeg i gael lle diogel clir i reoli ac ymchwilio i gŵynion am sefydliadau.

19. Cyfyngedig yw pwerau Comisiynydd y Gymraeg i orfodi sefydliadau i roi gwybodaeth iddo sy'n ymwneud ag ymchwiliadau. Hefyd, nid oes gan Gomisiynydd y Gymraeg unrhyw bwerau gorfodol sy'n ei gwneud yn ofynnol i unigolion nodi unrhyw fethiannau posibl. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn gweithio ar sail ymddiriedaeth a hyder personau sydd â buddiant, awdurdodau cyhoeddus (a'u gweithwyr) i wirfoddoli gwybodaeth a chydweithredu ag ef. Mae gwybodaeth a chydweithredu â phartïon perthnasol yn hanfodol i weithrediad effeithlon ac effeithiol Comisiynydd y Gymraeg ac i'w alluogi i gyflawni ei swyddogaethau, gwneud penderfyniadau mewn perthynas ag ymchwiliadau a gorfodi a sicrhau'r canlyniadau gorau fel rheoleiddiwr, gan gyflawni ei swyddogaethau cyfreithiol. Bydd unrhyw leihad yn y llif gwybodaeth i Gomisiynydd y Gymraeg yn llesteirio ei swyddogaeth statudol i ymchwilio i unrhyw fethiannau i gydymffurfio â'r Safonau neu'r Mesur.
20. Mae Comisiynydd y Gymraeg hefyd o'r farn y byddai datgelu'n niweidio ymddiriedaeth a hyder ynddo ef fel rheoleiddiwr ac yn ei enw da. Byddai'n effeithio ar ei ddull o ymdrin â gwybodaeth a roddir iddo ac ansawdd a maint yr wybodaeth a roddir iddo. Byddai hyn, yn ei dro, yn cael effaith andwyol ar ansawdd ymchwiliadau Comisiynydd y Gymraeg a'i allu i wneud penderfyniadau ac yn y pen draw ei allu i gyflawni ei swyddogaethau statudol
21. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn derbyn bod gan Gomisiynydd y Gymraeg y dasg ffurfiol o arfer swyddogaethau rheoleiddio i ganfod a oes unrhyw un wedi methu â chydymffurfio â'r Mesur a'r Safonau ac a fyddai amgylchiadau'n cyfiawnhau cymryd camau rheoleiddiol. O gofio natur yr wybodaeth y gofynnwyd amdani, mae'n wybodaeth y byddai angen i Gomisiynydd y Gymraeg ei hystyried er mwyn cyflawni ei swyddogaethau rheoleiddio. Gan fod yr wybodaeth sydd wedi'i chadw'n ôl o dan yr esempiad hwn yn ymwneud ag ymchwiliadau a oedd yn fyw adeg y cais, mae'r Comisiynydd Gwybodaeth o'r farn bod y tebygorwydd y byddai rhagfarn yn digwydd, hynny yw drwy atal llif rhwydd gwybodaeth rhwng Comisiynydd y Gymraeg a'r sefydliadau y mae'n eu rheoleiddio, yn real ac yn arwyddocaol. Er bod y Comisiynydd Gwybodaeth yn nodi mai pwerau cyfyngedig sydd gan Gomisiynydd y Gymraeg i orfodi sefydliadau i roi gwybodaeth iddo, mae'n derbyn bod Comisiynydd y Gymraeg yn gallu gweithredu mewn modd mwy effeithiol ac effeithlon os caiff gwybodaeth ei rhannu'n agored ac yn rhagweithiol. Gan hynny, mae'r Comisiynydd Gwybodaeth o'r farn bod adran 31(1)(g) gydag is-adrannau (2)(a) ac (c) yn berthnasol i'r achos hwn. Felly, mae wedi mynd ymlaen i ystyried dadleuon budd cyhoeddus.

#### **Dadleuon budd cyhoeddus o blaids datgelu**

22. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn cydnabod bod yna fudd cyhoeddus yn ei swyddogaeth ymchwilio a gorfodi. Gallai datgelu'r wybodaeth hybu trafodaeth gyhoeddus ar yr agwedd hon ar ei waith.
23. Cadarnhaodd Comisiynydd y Gymraeg ei fod yn cadw cofrestr<sup>5</sup> o gamau gorfodi ar ei wefan sy'n cael ei diweddar ar ôl iddo ddyfarnu ar ymchwiliad ac ar ôl i'r cyfnod ar gyfer unrhyw apêl ddod i ben. Mae Comisiynydd y Gymraeg hefyd yn darparu gwybodaeth am ei swyddogaethau, sut mae'n gweithredu, y Mesur ei hun a gwybodaeth arall ar ei wefan.
24. Gall Comisiynydd y Gymraeg gynnal ymchwiliad mewn ymateb i unrhyw gwyn sy'n dod i law ac mae hefyd yn gallu cynnal ymchwiliad i fethiant posibl i gydymffurfio heb fod cwyn wedi dod i law. Mae gwybodaeth am sut yr ymdrinnir â chwynion a sut mae ymchwiliadau'n cael eu cynnal hefyd ar gael ar wefan Comisiynydd y Gymraeg.

#### **Dadleuon budd cyhoeddus o blaid cynnal yr esempiad**

25. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn dadlau ei bod er budd y cyhoedd i ddiogelu ei allu i orfodi'r Mesur ac unrhyw fethiant i gydymffurfio â'r Safonau. Mae'n bwysig diogelu llif rhwydd gwybodaeth oddi wrth aelodau o'r cyhoedd a/neu weithwyr sefydliadau yngylch unrhyw fethiant i gydymffurfio gan sefydliadau y mae'n ofynnol iddo ymchwilio iddynt. Mae Comisiynydd y Gymraeg o'r farn y byddai datgelu'r wybodaeth a gadwyd yn ôl yn debygol o gael effaith andwyol ar unigolion sy'n dod ymlaen fel tystion a fyddai'n llai tebygol o rannu gwybodaeth oherwydd y risg o gael eu hadnabod, yn enwedig y rhai mewn sefydliadau llai.
  26. Mae Comisiynydd y Gymraeg yn pryderu y gallai unrhyw sefydliad sy'n destun ymchwiliad ddefnyddio'r effaith y byddai datgelu'n ei chael ar lif rhwydd gwybodaeth er ei les ei hun er mwyn llesteirio neu ddylanwadu ar yr ymchwiliad. Byddai hyn yn debygol iawn o ragfarnu swyddogaethau Comisiynydd y Gymraeg.
  27. Mae Comisiynydd y Gymraeg o'r farn ei bod yn bwysig bod ganddo le diogel i ystyried, llunio a rheoli ymchwiliadau. Mae hyn yn caniatáu iddo gynhyrchu'r dystiolaeth ddogfennol y mae ei hangen i gymryd unrhyw gamau gorfodi angenrheidiol ac i roi gwybod yn briodol i'r rhai y mae camau gorfodi yn cael eu cymryd yn eu herbyn (neu beidio).
- 

5

<http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Sefydliadau/Gorfodi%20safonau/Pages/ygofrestr.aspx>

28. Er bod yr wybodaeth sydd wedi'i chadw'n ôl o dan yr esempiad hwn yn gymharol gyfyngedig, mae Comisiynydd y Gymraeg o'r farn bod y tebygolrwydd o ragfarnu ei swyddogaethau ef a'r llif rhwydd gwybodaeth y mae ei hangen er mwyn ymchwilio a gorfodi'r Mesur yn briodol yn drech nag unrhyw fudd cyhoeddus mewn datgelu'r wybodaeth. Nid yw Comisiynydd y Gymraeg o'r farn ei bod er budd y cyhoedd i gyfyngu a/neu rwystro unrhyw un o'i swyddogaethau statudol.

### **Cydbwysedd y budd cyhoeddus**

29. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi ystyried y dadleuon budd cyhoeddus o blaid ac yn erbyn datgelu. Mae'n nodi bod yna fudd cyhoeddus yn natur agored, dryloyw ac atebol gyffredinol awdurdodau cyhoeddus. Mae hefyd yn derbyn bod rhoi mynediad i'r cyhoedd at wybodaeth yn eu helpu i ddeall sut mae rhai swyddogaethau'n cael eu cyflawni, i werthuso effeithiolrwydd y swyddogaeth honno ac i asesu a yw'r penderfyniadau a wneir yn deg ac yn rhesymol. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth o'r farn bod y budd hwn wedi'i gyflawni, i ryw raddau, drwy'r wybodaeth y mae Comisiynydd y Gymraeg wedi'i datgelu hyd yn hyn a'r wybodaeth sydd ar gael ar ei wefan ynghylch camau gorfodi y mae wedi'u cymryd.
30. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn nodi mai'r unig wybodaeth y mae Comisiynydd y Gymraeg wedi'i chadw'n ôl o dan yr esempiad hwn yn ymwneud â materion agored, naill ai pan oedd ymchwiliadau'n parhau neu pan oedd penderfyniadau a wnaed yn destun apêl, cwyn neu her gyfreithiol. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn derbyn, mewn perthynas ag ymchwiliadau byw, fod yna fudd cyhoeddus yn y ffaith bod gan Gomisiynydd y Gymraeg le diogel i wneud ei benderfyniadau ac mae wedi rhoi rhywfaint o bwys ar y ddadl hon.
31. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth o'r farn bod yna fudd cyhoeddus mawr mewn peidio â datgelu gwybodaeth a fyddai'n debygol o amharu ar allu Comisiynydd y Gymraeg i gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol. Ni fyddai datgelu gwybodaeth a fyddai'n debygol o rwystro'r llif gwirfoddol o wybodaeth er budd y cyhoedd. Mae'n bwysig bod yna ymddiriedaeth mewn rheoleiddiwr fel y gall gyfathrebu'n agored ac yn onest ag unigolion a sefydliadau er mwyn iddo allu gwneud y penderfyniadau rheoleiddio cywir. Ar y llaw arall, nid yw'r Comisiynydd Gwybodaeth o'r farn bod y dadleuon dros ddatgelu yn drech na'r budd cyhoeddus mewn cynnal yr esempiad.
32. Gan hynny, mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi dod i'r casgliad bod pwysau budd y cyhoedd, o dan yr holl amgylchiadau, o blaid cynnal yr esempiad yn adran 31(1)(g), gydag is-adrannau 31(2)(a) a 31(2)(c).

### **Adran 44 – gwahardd datgelu**

33. Dyma a ddywedir yn adran 44 o'r Ddeddf:

*(1) Information is exempt information if its disclosure (otherwise than under this Act) by the public authority holding it –*

*(a) is prohibited by or under any enactment,*

34. Tasg y Comisiynydd Gwybodaeth yn hyn o beth, felly, yw ystyried a yw datgelu'r wybodaeth y mae'r achwynnydd yn gofyn amdani wedi'i wahardd gan y gyfraith; os felly, bydd yr esemtiaid hwn yn gymwys.
35. Esemptiad dosbarth yw adran 44, sy'n golygu bod yr esemtiaid yn berthnasol os yw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn dod o fewn y dosbarth o wybodaeth a ddisgrifir yn adran 44(1)(a). Gan fod adran 44(1)(a) hefyd yn eithriad absoliwt, nid yw'n dod o dan unrhyw ystyriaethau budd cyhoeddus.

***Ydy datgelu wedi'i wahardd gan neu o dan unrhyw ddeddfiad?***

36. Mae gwybodaeth yn esempt o dan adran 44(1)(a) os byddai datgelu'r wybodaeth honno yn torri unrhyw un o'r canlynol:
- deddfwriaeth sylfaenol (Deddf Seneddol); neu
  - ddeddfwriaeth eilaidd (Offeryn Statudol)
37. Safwynt Comisiynydd y Gymraeg yw bod datgelu'r wybodaeth o dan sylw wedi'i wahardd o dan adran 44 o'r Ddeddf yn rhinwedd adran 22(1) o'r Mesur.
38. Mae adran 22(1) o'r Mesur yn gwahardd Comisiynydd y Gymraeg rhag rhyddhau gwybodaeth sydd wedi'i sicrhau wrth arfer unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau, oni bai bod y datgeliad hwnnw wedi'i awdurdodi gan adran 22(2) o'r Mesur.
39. Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg nad yw'r term "*wedi'i sicrhau wrth arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau Comisiynydd y Gymraeg*" wedi'i ddiffinio yn y Mesur ond y bernir ei fod yn golygu bod adran 22(1) yn gymwys i wybodaeth y mae Comisiynydd y Gymraeg wedi ei derbyn yn unig, yn hytrach na gwybodaeth y mae Comisiynydd y Gymraeg wedi ei chynhyrchu'n fewnol.
40. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth eisoes wedi derbyn bod Comisiynydd y Gymraeg o dan ddyletswydd statudol i orfodi achosion o dorri amodau a methiannau i gydymffurfio â'r Mesur a/neu'r Safonau, fel y darperir ar eu cyfer o dan adran 71 o'r Mesur. Mae'r wybodaeth a gadwyd yn ôl yn cynnwys gwybodaeth y mae Comisiynydd y Gymraeg wedi'i chael gan drydydd partïon o ganlyniad i ymchwiliad i doriad/methiant posibl.

41. Mae'r achwynnydd yn honni na all adran 44 o'r Ddeddf yn rhinwedd adran 22 o'r Mesur fod yn gymwys yn yr achos hwn gan fod Comisiynydd y Gymraeg o dan rwymedigaeth gyfreithiol i gyhoeddi pob cylch gorchwyl yn rhinwedd paragraff 2(4)(a) o Atodlen 10 i'r Mesur, sy'n dweud:

*"Ar ôl setlo'r cylch gorchwyl (ac yntau wedi cydymffurfio ag is-baragraff (3)), rhaid i'r Comisiynydd—*

*(a) cyhoeddi cylch gorchwyl yr ymchwiliad mewn modd sy'n debygol, yn nhyb y Comisiynydd, o ddwyn yr ymchwiliad i sylw personau y mae a wnelo'r ymchwiliad â hwy neu bersonau sy'n debygol o fod yn bersonau a chanddynt fuddiant ynddo, a*

*(b) hysbysu'r canlynol am y cylch gorchwyl—*

*(i) D [y person sy'n destun ymchwiliad], a*

*(ii) unrhyw berson arall a chanddo fuddiant."*

42. Safwynt Comisiynydd y Gymraeg yw nad yw'r term "person a chanddo fuddiant" y cyfeirir ato ym mharagraff 2(4)(a) o Atodlen 10 i'r Mesur yn cyfeirio at unrhyw unigolyn neu aelod o'r cyhoedd a allai fod â diddordeb mewn ymchwiliad. Nododd Comisiynydd y Gymraeg fod y diffiniad o "person a chanddo fuddiant" mewn perthynas ag unrhyw ymchwiliad o dan adran 71 o'r Mesur wedi'i ddiffinio yn adran 110 o'r Mesur fel hyn:

*"ystyr "person a chanddo fuddiant" ("interested person") mewn perthynas ag ymchwiliad o dan adran 71 yw—*

*(a) D [y person sy'n destun ymchwiliad], a*

*(b) os yw'r ymchwiliad yn dilyn cwyn a wnaed o dan adran 93, y person a wnaeth y gŵyn."*

43. Safwynt Comisiynydd y Gymraeg yw nad yw darpariaethau paragraff 2(4)(a) o Atodlen 10 i'r Mesur ond yn ei gwneud yn ofynnol iddo 'gyhoeddi' cylch gorchwyl i'r person neu'r sefydliad sy'n destun ymchwiliad a'r unigolyn a wnaeth y gŵyn a arweiniodd at gychwyn yr ymchwiliad. Nid yw Comisiynydd y Gymraeg yn derbyn ei fod o dan rwymedigaeth gyfreithiol i gyhoeddi cylch gorchwyl i unrhyw unigolyn arall, nac i'r bau gyhoeddus yn ehangach.

44. Rôl y Comisiynydd Gwybodaeth yw penderfynu a ymdriniwyd â chais yn unol â'r ddeddfwriaeth y mae'n ei rheoleiddio. Ni all ddyfarnu sut mae awdurdod cyhoeddus yn dehongli deddfwriaeth arall y mae'n ofynnol iddo gydymffurfio â hi. Er hynny, mae hi o'r farn bod yr esboniadau a roddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, gan gyfeirio at y diffiniad o berson a chanddo fuddiant, mewn perthynas â darpariaethau paragraff 2(4)(a) o Atodlen 10 i'r Mesur, yn ymddangos yn rhesymol.

45. Wedi edrych ar yr wybodaeth a gadwyd yn ôl, mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn fodlon ei bod wedi'i sicrhau gan Gomisiynydd y Gymraeg wrth arfer un o'i swyddogaethau, sef yn benodol wrth gynnal ymchwiliad i fethiant i gydymffurfio â'r Safonau.

***A fyddai unrhyw un neu ragor o'r eithriadau rhag adran 22(2) o'r Mesur yn gymwys?***

46. Mae adrannau 22(2)(a) i (h) o'r Mesur yn nodi'r sefyllfaoedd penodol lle nad yw'r gwaharddiad ar ddatgelu yn gymwys.

"(2)Caiff y Comisiynydd ddatgelu'r wybodaeth—

(a)at ddibenion arfer unrhyw un neu ragor o swyddogaethau'r Comisiynydd;

(b)at ddibenion achos am dramgwydd o dyngu anudon yr honnir i'r tramgwydd gael ei gyflawni yn ystod ymchwiliad i orfodi safonau;

(c)at ddibenion ymholiad gyda golwg ar gychwyn achos fel a grybwyllir ym mharagraff (b);

(d)at ddibenion dyroddi tystysgrif o dan adran 107 (rhwystro a dirmygu);

(e)os yw'r wybodaeth i'r perwyl bod person yn debygol o fod yn fygythiad i ieched neu ddiogelwch un neu ragor o bersonau a bod y datgeliad yn ddatgeliad i berson sydd ym marn y Comisiynydd yn berson y dylid datgelu'r wybodaeth iddo er budd y cyhoedd;

(f)os gwybodaeth o'r math a grybwyllir yn is-adran (3) yw'r wybodaeth, ac os gwneir y datgeliad i'r Comisiynydd Gwybodaeth;

(g)os gwneir y datgeliad i berson a ganiatawyd, a bod y Comisiynydd yn fodlon bod amod budd y cyhoedd wedi ei fodloni;

(h)os cafwyd yr wybodaeth gan y Comisiynydd dros 70 o flynyddoedd cyn dyddiad y datgelu, ac os datgeliad ydyw i berson sydd ym marn y Comisiynydd yn berson y dylid datgelu'r wybodaeth iddo er budd y cyhoedd."

47. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi ystyried y pyrth y cyfeirir atynt uchod sy'n caniatáu datgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani yn yr achos hwn. Mae'n fodlon nad yw datgeliad yn unol ag ymateb i gais am wybodaeth o dan y Ddeddf yn un o'r rhesymau dros ddatgelu y darperir ar eu cyfer o dan is-adrannau 22(a) i (h) o'r Mesur.
48. I grynhoi, mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi'i bodloni bod adran 22(1) o'r Mesur yn gwahardd datgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani

ac felly mae wedi dod i'r casgliad bod adran 44(1)(a) o'r Ddeddf yn berthnasol. Gan fod adran 44 yn eithriad absoliwt does dim angen ystyried y prawf budd cyhoeddus.

### **Adran 40(2) – data personol trydydd parti**

49. Mae adran 40(2) o'r Ddeddf yn darparu bod gwybodaeth wedi'i hesemptio rhag cael ei datgelu os yw'n ddata personol unigolyn heblaw'r ceisydd a phan fo un o'r amodau a restrir yn adran 40(3A), (3B) neu 40(4A) wedi ei fodloni.
50. Yn yr achos hwn, mae'r amod perthnasol i'w weld yn adran 40(3A)(a). Mae hyn yn gymwys pan fyddai datgelu'r wybodaeth i unrhyw aelod o'r cyhoedd yn torri unrhyw un o'r egwyddorion sy'n ymwneud â phrosesu data personol ('yr egwyddorion prosesu data'), fel y'u nodir yn Erthygl 5 o'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data ('GDPR').
51. Y cam cyntaf i'r Comisiynydd Gwybodaeth yw penderfynu a yw'r wybodaeth a gadwyd yn ôl yn gyfystyr â data personol fel y'i diffinnir gan Ddeddf Diogelu Data 2018 ('Deddf 2018'). Os nad yw'n ddata personol yna ni all adran 40 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth fod yn gymwys.
52. Yn ail, a dim ond os yw'r Comisiynydd Gwybodaeth yn fodlon mai data personol yw'r wybodaeth y gofynnwyd amdani, rhaid iddi sefydlu a fyddai datgelu'r data hwnnw'n torri unrhyw un o'r egwyddorion prosesu data.

#### ***Ai data personol yw'r wybodaeth?***

53. Mae Adran 3(2) o Ddeddf 2018 yn diffinio data personol fel hyn:
 

*"any information relating to an identified or identifiable living individual".*
54. Dwy brif elfen data personol yw bod rhaid i'r wybodaeth fod yn ymwneud â pherson byw a bod rhaid i'r person fod yn adnabyddadwy.
55. Unigolyn byw adnabyddadwy yw un y gellir ei adnabod, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn benodol drwy gyfeirio at ddynodydd megis enw, rhif adnabod, data lleoliad, dynodydd ar-lein neu at un neu ragor o ffactorau sy'n benodol i hunaniaeth gorfforol, ffisiolegol, enetig, feddyliol, economaidd, ddiwylliannol neu gymdeithasol yr unigolyn.
56. Bydd gwybodaeth yn ymwneud â pherson os yw'n ymwneud ag ef, yn gysylltiedig ag ef, ag arwyddocâd bywgraffyddol iddo ef, yn cael ei defnyddio i lywio penderfyniadau sy'n effeithio arno ef nhw neu os ef yw ei phrif ffocws.

57. O dan amgylchiadau'r achos hwn, mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi'i bodloni bod yr wybodaeth y mae Comisiynydd y Gymraeg wedi parhau i'w chadw'n ôl o'r cylchoedd gorchwyl, sef cynnwys enw dau unigolyn a gwynodd i Gomisiynydd y Gymraeg, yn amlwg yn ymwneud â thrydydd partïon. Mae hi'n fodlon bod yr wybodaeth yn ymwneud â'r trydydd partïon dan sylw ac yn eu hadnabod. Gan hynny, mae'r wybodaeth hon yn dod o fewn y diffiniad o 'ddata personol' yn adran 3(2) o Ddeddf 2018.
58. Nid yw'r ffaith bod gwybodaeth yn gyfystyr â data personol unigolyn byw adnabyddadwy yn ei hesempcio'n awtomatig rhag cael ei datgelu o dan y Ddeddf. Ail elfen y prawf yw penderfynu a fyddai datgelu'r wybodaeth yn mynd yn groes i unrhyw un o'r egwyddorion prosesu data.
59. Yr egwyddor prosesu data fwyaf perthnasol yn yr achos hwn yw egwyddor (a).

### **A fyddai datgelu'n groes i egwyddor (a)?**

60. Mae Erthygl 5(1)(a) o'r GDPR yn dweud:

*"Personal data shall be processed lawfully, fairly and in a transparent manner in relation to the data subject".*

61. Yn achos cais rhyddid gwybodaeth, mae'r data personol yn cael ei brosesu pan gaiff ei ddatgelu mewn ymateb i'r cais. Mae hyn yn golygu mai dim ond os byddai gwneud hynny'n gyfreithlon, yn deg ac yn dryloyw y caniateir i'r wybodaeth gael ei datgelu.
62. I fod yn gyfreithlon, rhaid i un o'r seiliau cyfreithlon a restrir yn Erthygl 6(1) o'r GDPR fod yn gymwys i'r gwaith prosesu. Rhaid iddo hefyd fod yn gyfreithlon yn gyffredinol.

### **Prosesu cyfreithlon: Erthygl 6(1)(f) o'r GDPR**

63. Mae Erthygl 6(1) o'r GDPR yn pennu'r gofynion ynglŷn â phrosesu cyfreithlon drwy ddarparu hyn: "*processing shall be lawful only if and to the extent that at least one*" o'r seiliau cyfreithlon ar gyfer prosesu a restrir yn yr Erthygl yn gymwys.
64. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth o'r farn mai'r sail gyfreithlon sydd fwyaf perthnasol yw sail 6(1)(f) sy'n dweud:

*"processing is necessary for the purposes of the legitimate interests pursued by the controller or by a third party except where such interests are overridden by the interests or fundamental rights and*

*freedoms of the data subject which require protection of personal data, in particular where the data subject is a child.”<sup>6</sup>*

65. Wrth ystyried sut i gymhwysyo Erthygl 6(1)(f) o'r GDPR yng nghyddestun cais am wybodaeth o dan y Ddeddf, mae angen ystyried y prawf tair-rhan ganlynol:-
- i) **Prawf budd dilys:** A yw'r cais am wybodaeth yn deillio o fudd dilys;
  - ii) **Prawf rheidrwydd:** A oes angen datgelu'r wybodaeth er mwyn bodloni'r budd dilys o dan sylw;
  - iii) **Prawf cydbwysyo:** A yw'r budd uchod yn drech na budd(ion) dilys neu hawliau a rhyddidau sylfaenol y testun data.

66. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth o'r farn bod rhaid bodloni'r prawf 'rheidrwydd' o dan gam (ii) cyn i'r prawf cydbwysyo o dan gam (iii) gael ei gymhwysyo.

#### *Buddiannau dilys*

67. Wrth ystyried unrhyw fuddiannau dilys wrth ddatgelu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani o dan y Ddeddf, mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn cydnabod y gall buddiannau o'r fath gynnwys egwyddorion cyffredinol eang atebolrwydd a thryloywder er eu lles eu hunain, yn ogystal â buddiannau sy'n benodol i achosion.
68. At hynny, gall ystod eang o fuddiannau fod yn fuddiannau dilys. Gallant fod yn fuddiannau'r ceisydd ei hun neu fuddiannau trydydd partïon, a buddiannau masnachol yn ogystal â manteision cymdeithasol ehangach.

<sup>6</sup> Mae Erthygl 6(1) yn mynd ymlaen i ddweud:-

*“Point (f) of the first subparagraph shall not apply to processing carried out by public authorities in the performance of their tasks”.*

Er hynny, mae adran 40(8) o'r Ddeddf (fel y'i diwygiwyd gan Atodlen 19 Paragraff 58(8) o Ddeddf 2018 yn darparu hyn:-

*“In determining for the purposes of this section whether the lawfulness principle in Article 5(1)(a) of the GDPR would be contravened by the disclosure of information, Article 6(1) of the GDPR (lawfulness) is to be read as if the second sub-paragraph (dis-applying the legitimate interests gateway in relation to public authorities) were omitted”.*

Gallant fod yn gymhellol neu'n ddibwys, ond gall buddiannau dibwys gael eu diystyru'n haws yn y prawf cydbwyso.

69. Nid yw'r achwynnydd wedi cyflwyno unrhyw sylwadau ynghylch pam y mae o'r farn y dylai'r data personol gael ei ddatgelu, heblaw cyfeirio at y ffaith bod y cylchoedd gorchwyl wedi'u creu gyda chaniatâd yr unigolion dan sylw. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn derbyn y bernir bod unigolyn sy'n gwneud cwyn i Gomisiynydd y Gymraeg yn rhoi ei gydsyniad i Gomisiynydd y Gymraeg ddefnyddio'i ddata personol at ddibenion ei ymchwiliad i'w gwyn benodol. Er hynny, nid yw'r Comisiynydd Gwybodaeth yn derbyn bod y cydsyniad hwn yn cynnwys datgelu'r data personol hwnnw wedyn, i'r bau gyhoeddus yn y bôn, mewn ymateb i gais rhyddid gwybodaeth.
70. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn fodlon derbyn mai cyfyngedig yw'r budd dilys mewn datgelu enwau'r unigolion a gyflwynodd y cwynion o ran atebolrwydd awdurdodau cyhoeddus fel egwyddor gyffredinol.

#### *Ydy datgelu yn angenrheidiol?*

71. Mae "angenrheidiol" yn golygu mwy na dymunol ond llai nag anhepgor neu reidrwydd absoliwt. Gan hynny, mae'r prawf yn ymwneud ag angen rhesymol sy'n golygu ystyried mesurau amgen, ac felly ni fyddai mesur yn angenrheidiol pe gellid cyflawni'r nod dilys drwy wneud rhywbeth llai. Felly, rhaid i ddatgeliad o dan y Ddeddf fod y ffordd leiaf ymwthiol o gyflawni'r nod dilys dan sylw.
72. Nid yw'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi'i darbwyllo bod angen datgelu enwau'r unigolion a gyflwynodd gŵynion i Gomisiynydd y Gymraeg er mwyn deall natur a sylwedd y cwynion a godwyd a chanlyniad ymchwiliad Comisiynydd y Gymraeg. Nid yw'r Comisiynydd Gwybodaeth o'r farn y byddai datgelu enwau'r unigolion a gyflwynodd y cwynion yn ychwanegu at ddealltwriaeth y cyhoedd mewn unrhyw ffordd.
73. O dan amgylchiadau'r achos hwn, mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi nodi, er bod yna fudd dilys cyfyngedig mewn sicrhau atebolrwydd a thryloywder o ran Comisiynydd y Gymraeg, nad yw wedi'i hargyhoeddi o'r angen i ddatgelu'r enwau a gadwyd yn ôl. O gofio'r dyfarniad hwn, mae'r Comisiynydd Gwybodaeth wedi dod i'r casgliad na fyddai datgelu'r wybodaeth a gadwyd yn ôl yn gyfreithlon ac felly nad yw Erthygl 6(1)(f) o'r GDPR wedi'i bodloni. Gan hynny, byddai datgelu'r wybodaeth yn torri'r amddiffyniad data cyntaf ac felly mae'r wybodaeth wedi'i hesemptio rhag cael ei datgelu ar sail adran 40(2) o'r Ddeddf.

#### **Adran 10 – amser ar gyfer cydymffurfio**

74. Mae adran 10(1) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod cyhoeddus gydymffurfio ag adran 1(1) yn brydlon, a beth bynnag heb

fod yn hwyrach nag 20 diwrnod gwaith ar ôl y dyddiad y daeth cais i law. Mae adran 1(1) yn dweud y dylai awdurdod cyhoeddus gadarnhau a oes ganddo wybodaeth berthnasol wedi'i chofnodi ac, os oes, cyfleu'r wybodaeth honno i'r ceisydd.

75. Cafodd y cais yn yr achos hwn ei gyflwyno ar 13 Mehefin 2019 ac i ddechrau chymhwysodd Comisiynydd y Gymraeg adran 12(1) at y cais. Nid tan ar ôl i'r Comisiynydd Gwybodaeth ddechrau ei hymchwiliad y datgelodd Comisiynydd y Gymraeg unrhyw wybodaeth yn ymwneud â'r cais. Datgelwyd yr wybodaeth bob yn dipyn ar dri achlysur gwahanol ar 30 Mawrth 2020, 22 Mehefin 2020 a 4 Tachwedd 2020.
76. Wrth fethu â darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani o fewn 20 diwrnod gwaith ar ôl cael y cais, mae'r Comisiynydd Gwybodaeth o'r farn bod Comisiynydd y Gymraeg wedi torri adran 10(1) o'r Ddeddf. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd wedi gwneud sylwadau ar ddatgelu gwybodaeth yn dameidiog yn yr adran o'r hysbysiad hwn sy'n ymwneud â materion eraill isod.

### **Materion eraill**

---

77. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth o'r farn ei bod yn briodol cyflwyno sylwadau ar y modd y daeth Comisiynydd y Gymraeg o hyd i wybodaeth a oedd yn dod o fewn rhychwant y cais fesul tamaid
78. Yn ystod ei hymchwiliad i'r gŵyn hon, bu'n rhaid i'r Comisiynydd Gwybodaeth gwestiynu faint o wybodaeth a ddatgelwyd i'r achwynydd a rhai o'r golygiadau a wnaed o dan adran 40(2) o'r Ddeddf. Yn sgil y rhan fwyaf o'r ymholiadau hyn nododd Comisiynydd y Gymraeg wybodaeth ychwanegol y dylai fod wedi'i datgelu. Arweiniodd hyn at ddarparu gwybodaeth i'r achwynydd ar sail dameidiog. Mae'r Comisiynydd Gwybodaeth yn argymhell y dylai Comisiynydd y Gymraeg sicrhau yn y dyfodol mai'r cam cyntaf ar ôl cael cais am wybodaeth yw nodi'r holl wybodaeth berthnasol sydd ganddo a'i darparu i'r ceisydd, oni bai bod esemtiaid perthnasol yn gymwys, a hynny er mwyn atal gwybodaeth rhag cael ei datgelu'n dameidiog fel hyn.

## **Yr hawl i apelio**

---

79. Mae gan y naill barti a'r llall hawl i apelio yn erbyn yr hysbysiad penderfynu hwn i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf (Hawliau Gwybodaeth). Mae gwybodaeth am y broses apelio ar gael oddi wrth:

Tribiwnlys yr Haen Gyntaf (Hawliau Gwybodaeth)  
GRC & GRP Tribunals,  
PO Box 9300,  
LEICESTER,  
LE1 8DJ

Ffôn: 0300 1234504

Ffacs: 0870 739 5836

Ebost: [grc@justice.gov.uk](mailto:grc@justice.gov.uk)

Gwefan: [www.justice.gov.uk/tribunals/general-regulatory-chamber](http://www.justice.gov.uk/tribunals/general-regulatory-chamber)

80. Os hoffech apelio yn erbyn hysbysiad penderfynu, gallwch gael gwybodaeth am sut i apelio ynghyd â'r ffurflenni perthnasol ar wefan y Tribiwnlys Gwybodaeth.
81. Dylai unrhyw Hysbysiad Apelio gael ei gyflwyno i'r Tribiwnlys o fewn 28 diwrnod (calendr) ar ôl dyddiad anfon yr hysbysiad penderfynu hwn.

**Llofnod .....**

**Joanne Edwards**  
**Uwch-Swyddog Achosion**  
**Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth**  
**Wycliffe House**  
**Water Lane**  
**Wilmslow**  
**Cheshire**  
**SK9 5AF**